

**Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Archwiliadau Safle)**

20 Tachwedd 2017

Yn bresennol: Y Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)
Y Cynghorydd K Doolin, Mrs G Hayward, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd P Kidney, y Cynghorydd P Morgan, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd M Williams.

(Archwiliad Safle: Aberllydan: 10.15 a.m. – 11.00 a.m.)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mr A Archer, y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, y Cynghorydd P Harries, y Dr R Heath-Davies, Mrs J James, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

2. NP/17/0315/FUL – Datbygiad preswyl sy'n cynnwys 18 annedd gyda gwaith cysylltiedig – Tir gerllaw Walton Road, Aberllydan, Hwlfordd, SA623JX

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod ac atgoffodd hwy mai diben yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd rhoi cyfle i'r Aelodau ymgyfarwyddo â safle'r cais a'r ardal gyfagos. Ni fyddai unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud hyd nes byddai'r cais cynllunio yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Swyddog y gofynnir am gais cynllunio llawn i godi 18 annedd – pedwar tŷ sengl 4 ystafell wely ar bris y farchnad, wyth tŷ talcen 4 ystafell wely ar bris y farchnad, a chwe thŷ fforddiadwy i'w darparu fel fflatiau un ystafell wely mewn un bloc. Roedd yn cael ei ddosbarthu fel datblygiad mawr ac roedd wedi cael ei ohirio yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Tachwedd 2017 fel y gallai'r Aelodau fynd i weld y safle. Roedd y prif bryderon a fynegwyd gan y gymuned yn ymwneud â dwysedd y safle a natur gul y briffordd.

Neilltuwyd y safle yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer wyth uned breswyl, ac yn 2014 rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol gyda phob mater wedi'i gadw'n ôl (yn amodol ar gytundebau cyfreithiol) ar gyfer datblygu deg annedd – chwe thŷ ar bris y farchnad a phedwar fflat fforddiadwy mewn un bloc.



Soniwyd yn y Pwyllgor fod trafodaethau'n parhau gyda'r ymgeisydd ynghylch darparu llwybr cerdded o'r safle i'r pentref, a byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn ar gael y tro nesaf y byddai'r cais yn dod gerbron y Pwyllgor. Fodd bynnag, nodwyd fod y cynlluniau yn dangos llwybr cerdded o fewn y safle.

Cerddodd yr Aelodau o gwmpas y safle, gan nodi ei fod ar lefel uwch na Driftwood Close a oedd yn ymyl. Dywedodd y swyddog fod tua 21 metr rhwng cefn y tai hyn ac ochr ogleddol y tai arfaethedig.

Holwyd beth oedd gorffeniad yr anheddau arfaethedig, ac atebodd yr asiant y byddent yn amrywiaeth o rendrad, cerrig ar y wyneb a chladin pren gyda ffenestri alwminiwm a tho o lechi artiffisial.

Diolchodd y Caeirydd i'r Aelodau am fod yn bresennol, a daeth â'r cyfarfod i ben.

